**Eitem ar yr agenda: 14**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20 MEHEFIN 2005**

**Y TREFNIADAU AR GYFER YMDRIN Â GWERTH GORAU YN Y DYFODOL**

Adroddiad gan y Clerc

## Diben yr Adroddiad

1 Ystyried argymhelliad y dylid trosglwyddo cyfrifoldebau'r Pwyllgor Gwerth Gorau i'r Panel Gweithredol.

## Cefndir

2 Ers i'r ddeddfwriaeth ar werth gorau ddod i rym, mae pwyllgor pwrpasol wedi bod gan yr awdurdod i ymdrin â chyfrifoldebau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, yn cynnwys cymeradwyo'r cynllun gwella blynyddol, ystyried astudiaethau ac adroddiadau gwerth gorau, monitro dangosyddion perfformiad ac yn y blaen.

3 Mae datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth tân ac achub i'r Cynulliad Cenedlaethol yn golygu y bydd yr awdurdod yn dod o fewn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Ers cael y cyfrifoldeb yn Nhachwedd 2004, nid yw Llywodraeth y Cynulliad eto wedi cyflwyno deddfwriaeth na chyfarwyddyd manwl ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Felly, nid yw'r gofynion manwl ar gyfer 2005-06 a'r blynyddoedd i ddod, yn hysbys eto. Fodd bynnag, elfen ganolog o'r Cynllun Integredig Rheoli Risg yw ystyried pa ffordd fyddai orau i'r awdurdod gyflwyno gwasanaethau er mwyn gwella diogelwch tân cymunedol. Mae hyn yn sicr o olygu herio'r hyn mae'r awdurdod yn ei wneud a chwestiynu effeithlonrwydd, cost-effeithiolrwydd, ansawdd gwasanaeth ac yn y blaen, - hynny yw, yr union bethau sy'n dod dan y ddeddfwriaeth gwerth gorau. Y Panel Gweithredol sy'n arwain y gwaith ar y Cynllun Risg, cyn i'r awdurdod llawn ei fabwysiadu bob blwyddyn.

4 Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth, bu'r Pwyllgor Gwerth Gorau yn ystyried y sefyllfa gan argymell y dylid trosglwyddo ei gyfrifoldebau i'r Panel Gweithredol. Yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill, cytunodd y Panel i wneud argymhelliad o'r fath i'r awdurdod tân.

**Cyngor**

5 Oherwydd y fframwaith cyfansoddiadol a chyfreithiol newydd y mae'r awdurdod yn gweithredu o'i fewn, ac oherwydd bod gwerth gorau wedi datblygu ac aeddfedu ers dyfodiad y ddeddfwriaeth wreiddiol, dyma gyfle i adolygu ai'r Panel Gweithredol ddylai ymdrin â'r cyfrifoldebau dan Ddeddf 1999 yn y dyfodol. Os felly, byddai'r Pwyllgor Gwerth Gorau yn dirwyn i ben. Byddai hyn yn golygu arbedion bychain i'r awdurdod o ran y costau o gynnal cyfarfodydd gwahanol ar gyfer dau bwyllgor, megis costau teithio i'r aelodau.

6 Byddai angen newid cylch gwaith y Panel. Mae'r geiriad arfaethedig sydd ym mharagraff 7.2 isod yn dilyn cylch gwaith presennol y Pwyllgor Gwerth Gorau, er bod y cymal terfynol ("gweithredu fel fforwm yr Awdurdod ar gyfer dwyn yr Aelodau i mewn i bob agwedd ar gydymffurfio â deddfwriaeth Gwerth Gorau, a chymeradwyo'r cyfeiriad y mae'r Gwasanaeth yn mynd iddo") wedi cael ei hepgor gan nad yw i'w weld yn ychwanegu dim.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cytuno:

7.1 y dylid dirwyn y Pwyllgor Gwerth Gorau i ben a throsglwyddo ei gyfrifoldebau i'r Panel Gweithredol;

7.2 y dylid newid cylch gwaith y Panel trwy ychwanegu fel paragraff 2.4:

"Hefyd, bydd y Panel yn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod dan adrannau 3 i 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 gan gynnwys:

(i) goruchwylio a monitro cydymffurfiad yr awdurdod â'r gofynion gwerth gorau sydd yn Neddf 1999;
(ii) goruchwylio a chymeradwyo'r adolygiadau gwerth gorau;
(iii) goruchwylio a chymeradwyo cynnwys y cynllun perfformiad gwerth gorau;
(iv) monitro perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad gwerth gorau a dangosyddion perfformiad lleol.